

Bwletin Awdurdod S4C – Ionawr 2000

Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 1999, trafododd Awdurdod S4C y canlynol:

Cynllun Corfforaethol S4C ar gyfer 2000

Cytunodd yr Awdurdod y cynllun ar gyfer ei gyhoeddi ar safle-we S4C ar y Rhyngwrwyd ym mis Ionawr. Hwn fydd y tro cyntaf i gynllun yr Awdurdod gael ei gyhoeddi. Gwneir hyn fel rhan o ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i drefn agored, hygyrch ac atebol i'r cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu.

Amlinella'r cynllun nodau, amcanion a thargedau S4C ar gyfer y flwyddyn. Bydd copïau argraffedig ar gael i'r cyhoedd trwy ofyn amdanynt.

Ymrwymadau S4C i'r Gwylwyr

Cytunodd yr Awdurdod hefyd y dylai, yn gynnar yn y flwyddyn newydd, gyhoeddi datganiad cryno o'i ymrwymadau i wylwyr, gan gynnwys sut i leisio eu barn (gan gynnwys cwynion) i S4C. Mae hyn yn ychwanegol at y trefniadau presennol a phoblogaidd y gall gwylwyr eu defnyddio i gysylltu ag S4C trwy Wifren y Gwylwyr, sydd ar agor bob diwrnod o'r flwyddyn.

Cynllun Corfforaethol S4C ar gyfer 2000 a thu hwnt

Mae S4C eisoes wedi dechrau gweithio ar adolygiad strategol a fydd yn arwain at gyhoeddi'r cynllun corfforaethol yn cwmpasu'r 5 mlynedd o 2001-2005. Cytunodd yr Awdurdod gynlluniau i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen yn ystod chwarter cyntaf 2000.

Iaith Gref ar 'Y Glas'

Trafododd yr Awdurdod yr adroddiad rheolaidd diweddaraf oddi wrth ei Grwp Cydymffurfiaeth sydd o dan gadeiryddiaeth annibynnol. Mae'r Grwp hwn yn seilio ei adroddiadau ar waith Uned annibynnol Sefydliad Thomson ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, sy'n monitro rhaglenni S4C trwy eu cymharu â chanllawiau rhaglenni S4C a'r Comisiwn Teledu Annibynnol. Roedd y Grwp wedi tynnu sylw'r Awdurdod yn arbennig at enghreifftiau o iaith gref a ddigwyddodd mewn sawl penod o 'Y Glas'. Darlledwyd y rhaglenni hyn rhwng 8.00 pm ac 8.30 pm.

Nododd yr Awdurdod fod y rhaglenni wedi cael eu darlledu cyn trothwy 9.00 pm, ar adeg pan y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai nifer o blant wedi bod yn gwylio. Nodwyd hefyd fod yr iaith a ddefnyddiwyd wedi bod o'r math yr ystyrir ei fod ar ben lleiaf difrifol y sbectrw, yn ôl yr ymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan y Comisiwn Safonau Darlledu ac na ddefnyddiwyd yr iaith gref yn aml. Nid oedd yr Awdurdod o'r farn ei bod yn amhriodol yng nghyd-destun rhaglen oedd yn ceisio cyflwyno gwaith yr heddlu mewn modd realistig. Roedd yr Awdurdod hefyd yn ymwybodol mai hon oedd cyfres olaf y rhaglen hon.

Gan gofio'r cefndir hwn, penderfynodd yr Awdurdod beidio gweithredu ymhellach ar fater y rhaglen hon. Fe fydd, er hynny, yn gofyn i'r Grwp Cydymffurfiaeth fonitro'r defnydd o iaith gref cyn y trothwy ac yn benodol felly rhwng 8.00 pm a 9.00 pm. Gofynnir i'r Grwp ddarparu ar gyfer yr Awdurdod adroddiadau pellach fel y gellir cadw golwg fanwl ar y sefyllfa.

Gweithgareddau Masnachol

Derbyniodd yr Awdurdod y diweddaraf o'r adroddiadau rheolaidd oddi wrth y Cyfarwyddydd Gweithgareddau Masnachol, Wyn Innes. Nododd yn benodol y gwaith manwl sy'n rhan o'r berthynas rhwng S4C ag SDN Cyf, mewn partneriaeth ag United News and Media ac NTL, er mwyn cyflwyno gwasanaethau Talu Wrth Wyllo ar draws y Deyrnas Gyfunol. Pwrpas y buddsoddiad hwn, sy'n dod yn gyfangwbl o incwm masnachol S4C, yw cynhyrchu refeniw ychwanegol sylweddol y gellir ei ddefnyddio i gynnal a gwella gwasanaethau cyhoeddus S4C.

Datganiad o Ddiddordebau Aelodau'r Awdurdod

Bu Aelodau'r Awdurdod yn adolygu eu datganiadau o ddiddordeb yn sgîl y canllawiau a fabwysiadwyd ganddynt yn eu Côd Ymarfer. Mae'r rhain yn dilyn argymhellion y Pwyllgor annibynnol ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Bydd y Côt, ynghyd â disgrifiad o rôl Awdurdod S4C, ar gael ar safle-we Awdurdod S4C ym mis Ionawr. Gall y cyhoedd weld datganiadau o ddiddordeb aelodau yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Materion Eraill

Cafodd yr Awdurdod gyflwyniad ar ddatblygiadau technolegol sy'n effeithio'r diwydiannau darlledu a rhai cysylltiedig oddi wrth y Cyfarwyddydd Peirianeg a Thechnoleg Gwybodaeth, Arshad Rasul.

Bu hefyd yn trafod adroddiadau rheolaidd ar:

- perfformiad rhaglenni S4C
- cwynion am raglenni unigol
- darpariaeth ariannol S4C

Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod busnes nesaf yr Awdurdod yng Nghaerdydd ar 28 Ionawr. Cynhelir ei gyfarfod cyhoeddus agored nesaf yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug am 7pm ar Nos Iau 24 Chwefror. Bydd yr Awdurdod yn cynnal ei gyfarfod busnes arferol yn Yr Wyddgrug y diwrnod canlynol.

Bwletin Awdurdod S4C – Ionawr 2000

Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 1999, trafododd Awdurdod S4C y canlynol:

Cynllun Corfforaethol S4C ar gyfer 2000

Cytunodd yr Awdurdod y cynllun ar gyfer ei gyhoeddi ym mis Ionawr. Hwn fydd y tro cyntaf i gynllun yr Awdurdod gael ei gyhoeddi. Gwneir hyn fel rhan o ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i drefn agored, hygyrch ac atebol i'r cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu.

Amlinella'r cynllun nodau, amcanion a thargedau S4C ar gyfer y flwyddyn. Bydd copiau argraffedig ar gael i'r cyhoedd trwy ofyn amdanynt.

Ymrwymadau S4C i'r Gwylwyr

Cytunodd yr Awdurdod hefyd y dylai, yn gynnar yn y flwyddyn newydd, gyhoeddi datganiad cryno o'i ymrwymadau i wylwyr, gan gynnwys sut i leisio eu barn (gan gynnwys cwynion) i S4C. Mae hyn yn ychwanegol at y trefniadau presennol a phoblogaidd y gall gwylwyr eu defnyddio i gysylltu ag S4C trwy Wifren y Gwylwyr, sydd ar agor bob diwrnod o'r flwyddyn.

Cynllun Corfforaethol S4C ar gyfer 2000 a thu hwnt

Mae S4C eisoes wedi dechrau gweithio ar adolygiad strategol a fydd yn arwain at gyhoeddi'r cynllun corfforaethol yn cwmpasu'r 5 mlynedd o 2001-2005. Cytunodd yr Awdurdod gynlluniau i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen yn ystod chwarter cyntaf 2000.

Iaith Gref ar 'Y Glas'

Trafododd yr Awdurdod yr adroddiad rheolaidd diweddaraf oddi wrth ei Grwp Cydymffurfiaeth sydd o dan gadeiryddiaeth annibynnol. Mae'r Grwp hwn yn seilio ei adroddiadau ar waith Uned annibynnol Sefydliad Thomson ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, sy'n monitro rhaglenni S4C trwy eu cymharu â chanllawiau rhaglenni S4C a'r Comisiwn Teledu Annibynnol. Roedd y Grwp wedi tynnu sylw'r Awdurdod yn arbennig at enghreifftiau o iaith gref a ddigwyddodd mewn sawl pennod o 'Y Glas'. Darlledwyd y rhaglenni hyn rhwng 8.00 pm ac 8.30 pm.

Nododd yr Awdurdod fod y rhaglenni wedi cael eu darlledu cyn trothwy 9.00 pm, ar adeg pan y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai nifer o blant wedi bod yn gwylio. Nodwyd hefyd fod yr iaith a ddefnyddiwyd wedi bod o'r math yr ystyrir ei fod ar ben lleiaf difrifol y sbectrw, yn ôl yr ymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan y Comisiwn Safonau Darlledu ac na ddefnyddiwyd yr iaith gref yn aml. Nid oedd yr Awdurdod o'r farn ei bod yn amhriodol yng nghyd-destun rhaglen oedd yn ceisio cyflwyno gwaith yr heddlu mewn modd realistig. Roedd yr Awdurdod hefyd yn ymwybodol mai hon oedd cyfres olaf y rhaglen hon.

Gan gofio'r cefndir hwn, penderfynodd yr Awdurdod beidio gweithredu ymhellach ar fater y rhaglen hon. Fe fydd, er hynny, yn gofyn i'r Grwp Cydymffurfiaeth fonitro'r defnydd o iaith gref cyn y trothwy ac yn benodol felly rhwng 8.00 pm a 9.00 pm. Gofynnir i'r Grwp ddarparu ar gyfer yr Awdurdod adroddiadau pellach fel y gellir cadw golwg fanwl ar y sefyllfa.

Gweithgareddau Masnachol

Derbyniodd yr Awdurdod y diweddaraf o'r adroddiadau rheolaidd oddi wrth y Cyfarwyddydd Gweithgareddau Masnachol, Wyn Innes. Nododd yn benodol y gwaith manwl sy'n rhan o'r berthynas rhwng S4C ag SDN Cyf, mewn partneriaeth ag United News and Media ac NTL, er mwyn cyflwyno gwasanaethau Talu Wrth Wyllo ar draws y Deyrnas Gyfunol. Pwrpas y buddsoddiad hwn, sy'n dod yn gyfangwbl o incwm masnachol S4C, yw cynhyrchu refeniw ychwanegol sylweddol y gellir ei ddefnyddio i gynnal a gwella gwasanaethau cyhoeddus S4C.

Datganiad o Ddiddordebau Aelodau'r Awdurdod

Bu Aelodau'r Awdurdod yn adolygu eu datganiadau o ddiddordeb yn sgîl y canllawiau a fabwysiadwyd ganddynt yn eu Côd Ymarfer. Mae'r rhain yn dilyn argymhellion y Pwyllgor annibynnol ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Bydd y Côt, ynghyd â disgrifiad o rôl Awdurdod S4C, ar gael ar we-le Awdurdod S4C ym mis Ionawr. Gall y cyhoedd weld datganiadau o ddiddordeb aelodau yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Materion Eraill

Cafodd yr Awdurdod gyflwyniad ar ddatblygiadau technolegol sy'n effeithio'r diwydiannau darlledu a rhai cysylltiedig oddi wrth y Cyfarwyddydd Peirianeg a Thechnoleg Gwybodaeth, Arshad Rasul.

Bu hefyd yn trafod adroddiadau rheolaidd ar:

- perfformiad rhaglenni S4C
- cwynion am raglenni unigol
- darpariaeth ariannol S4C

Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod busnes nesaf yr Awdurdod yng Nghaerdydd ar 28 Ionawr. Cynhelir ei gyfarfod cyhoeddus agored nesaf yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug am 7pm ar Nos Iau 24 Chwefror. Bydd yr Awdurdod yn cynnal ei gyfarfod busnes arferol yn Yr Wyddgrug y diwrnod canlynol.
